

CYNLLUNIO CYNLLUN GWELLA CANLLAWIAU

Marc Elusen Ddibynadwy

Beth yw cynllun gwella?

Mae'n gynllun sy'n amlinellu'r hyn y mae eich sefydliad yn bwriadu ei wneud ynghylch unrhyw ddangosydd neu ddangosyddion Elusen Ddibynadwy nad ydynt wedi'u cyflawni a pha dystiolaeth rydych yn bwriadu ei chyflwyno i brofi ei fod wedi'i wneud. Ni fydd angen ichi ddatblygu *Cynllun Gwella* ond os bydd yr asesydd (aseswyr) yn dweud wrthyhych na ellir argymhell eich sefydliad ar gyfer Marc Elusen Ddibynadwy. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd yr *Adroddiad ar y Safle* a roddir i chi gan yr asesydd (aseswyr) yn nodi'n glir pa ddangosyddion nas cyflawnwyd ac am ba resymau.

Beth yw'r broses ar gyfer cynllunio cynllun gwella?

Rhaid i chi ddarparu *Cynllun Gwella* i'r prif asesydd cyn pen 2 wythnos i'r ymweliad â'r safle. Bydd y prif asesydd yn adolygu eich *Cynllun Gwella* cyn pen 2 wythnos ar ôl ei dderbyn, i edrych a yw'r camau a awgrymir yn ddigonol i sicrhau y caiff y dangosyddion perthnasol eu cyflawni yn y dyfodol ac y bydd y dystiolaeth yr ydych yn ei chynnig yn profi'n ddigonol fod y camau wedi'u cymryd. Yna bydd y prif asesydd yn cysylltu â chi i un ai gymeradwyo'r *Cynllun Gwella*, neu i awgrymu bod angen gwneud newidiadau iddo.

Pan fydd eich *Cynllun Gwella* wedi cael ei gymeradwyo, bydd gennych 8 wythnos i wneud y gwelliannau y cytunwyd arnynt. Erbyn diwedd yr 8 wythnos rhaid i chi anfon y dystiolaeth gymeradwy at y prif asesydd bod y gwelliannau y cytunwyd arnynt wedi eu cwblhau.

Bydd y prif asesydd yn gwirio'ch tystiolaeth cyn pen 2 wythnos o'i derbyn. Bydd hyn er mwyn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn ddigonol i ddangos bod y gwelliannau wedi eu cwblhau'n foddhaol a bod y dangosydd/dangosyddion bellach wedi'u cyflawni. Bydd y prif asesydd yn ysgrifennu adroddiad ar eich gwelliannau ac yn ei anfon atoch chi ac at NCVO.

Mae dau ganlyniad yn bosibl ar y cam hwn:

NAILL AI

Bod eich sefydliad yn cwrdd â holl ofynion lefel berthnasol Elusen Ddibynadwy a'r prif asesydd yn argymhell bod NCVO yn dyfarnu Marc Elusen Ddibynadwy i'ch sefydliad.

NEU

Nad yw eich sefydliad yn cwrdd â gofynion lefel berthnasol Elusen Ddibynadwy gan fod bylchau yn y dystiolaeth o hyd, ac felly ni ellir argymhell i NCVO y dylid dyfarnu Marc Elusen Ddibynadwy.

Os nad yw'r prif asesydd yn derbyn tystiolaeth o'ch gwelliannau o fewn y cyfnod o 8 wythnos, byddant yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthyhych na fyddwch yn cael eich argymhell ar gyfer Marc Elusen Ddibynadwy.

Paratoi cynllun gwella

Er mwyn paratoi cynllun gwella mae'n rhaid i chi gwblhau'r templed sydd wedi'i ddarparu. Dylech nodi'n glir:

1. Dangosydd – Dyma'r dangosydd Elusen Ddibynadwy y mae'r asesydd yn barnu nad yw eich sefydliad wedi'i fodloni.
2. Canfyddiadau'r asesydd – Dyma ganfyddiadau'r asesydd fel y maent yn ymddangos yn yr *Adroddiad ar y Safle*.
3. Angen gwneud gwelliannau – Dyma'r gwelliannau rydych yn bwriadu eu gwneud er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn bodloni'r dangosydd.
4. Tystiolaeth i'w chyflwyno

Pan fydd wedi'i gwblhau, dylai'r *Cynllun Gwella* gael ei lofnodi gan y prif weithredwr neu'r cadeirydd a dylent roi'r dyddiad arno ac yna ei anfon drwy'r post/e-bost i'r prif asesydd.

Rhoi gwelliannau ar waith

Mae'r camau y byddwch yn eu rhoi ar waith yn dibynnu ar ofynion y dangosyddion perthnasol y mae angen i chi eu bodloni. Bydd rhai materion a fydd yn codi o ganlyniad i ddangosydd heb ei fodloni yn gymharol syml a hawdd eu datrys, ond bydd eraill yn fwy cymhleth ac yn golygu camau gweithredu manwl.

Yn achos pob gwelliant, rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymdrin â'r sefyllfa bresennol drwy gymryd camau i unioni'r sefyllfa, ac yna sicrhau na fydd y broblem yn codi eto, drwy chwilio am yr hyn a achosodd y broblem a delio â hynny.

Er enghraifft, adroddir fel hyn:

'Nid yw rhai staff yn derbyn gwerthusiad bob blwyddyn.'

Gallai camau ar unwaith olygu bod staff nad ydynt wedi cael gwerthusiad yn derbyn un ar unwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal y sefyllfa rhag codi eto, felly mae angen archwilio'r broses werthuso i bennu pam nad oedd y staff perthnasol wedi derbyn eu gwerthusiad. Beth oedd y rheswm? Er enghraifft, ai methiant o ran cyfathrebu, diffyg cynllunio neu weithdrefn ddiffygiol oedd y rheswm?

Unwaith y bydd yr achos wedi'i ganfod, rhaid ymdrin ag ef yn unol â hynny.

Cofnodi gwelliannau

Pan fyddwch wedi gweithredu cam a ganfuwyd, dylid cofnodi hyn yng nghlofn olaf y *Cynllun Gwella* o dan Y camau a gymerwyd.

Cyflwyno cynllun gwella

Pan fydd gwelliannau wedi'u cwblhau, rhaid i'r *Cynllun Gwella* gael ei lofnodi gan eich prif weithredwr neu gadeirydd. Rhaid i chi hefyd gasglu ynghyd a rhoi ynghlwm â'r cynllun

unrhyw ddogfennau perthnasol – fel gweithdrefnau newydd neu gofnodion o gamau a gymerwyd – sy'n helpu i ddangos fod camau wedi'u rhoi ar waith fel y datganwyd yn y cynllun.

Yna bydd y *Cynllun Gwella*, wedi'i gwblhau a'i lofnodi, ynghyd â dogfennau ynghlwm, yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth bod eich sefydliad wedi cyflawni'r camau y cytunwyd arnynt ac y byddant yn golygu y byddwch yn cwrdd â gofynion y dangosydd/dangosyddion. Rhaid i chi anfon hwn at y prif asesydd cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn cymeradwyaeth i'ch cynllun. Efallai y bydd y prif asesydd yn gofyn i chi am fwy o fanylion os oes unrhyw beth yn aneglur. Pan fydd y prif asesydd yn fodlon y cyflawnwyd y dangosydd(ion), bydd yn cadarnhau hyn ichi ac yn cysylltu â NCVO.

Enghraifft o gynllun gwella

Mae'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn yr enghraifft hon yn dod o Elusen Ddibynadwy 3^{ydd} argraffiad ac maent fel a ganlyn:

3.1.4 Rheolwyr i sicrhau bod y sefydliad yn cwrdd â'r holl ymrwymadau cyfreithiol, ariannol a chytundebol, a bod yr holl ofynion o ran yswiriant yn gyfredol.

4.2.7 Gosodir targedau ar gyfer lefelau bodlonrwydd defnyddwyr.

Dangosydd	Canfyddiadau'r asesydd	Gwelliant i'w cymryd	Tystiolaeth	Y camau a gymerwyd
3.1.4	Yswiriant atebolrwydd Cyflogwr ddim yn gyfredol.	Archwilio ein system bresennol ar gyfer canfod gofynion cyfreithiol a sefydlu proses i sicrhau y cwrddir â'r gofynion cyfreithiol hyn.	Copi o dystysgrif atebolrwydd cyflogwr.	Mae gofynion cyfreithiol nas cyflawnwyd yn y gorffennol wedi eu rhoi yn eu lle. Mae pobl berthnasol wedi'u hysbysu. Mae proses barhaus wedi'i sefydlu i sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu diweddarau.

4.2.7	Nid oes trefn gwyno wedi'i chofnodi.	Datblygu trefn gwyno.	Trefn gwyno wedi'i chofnodi.	Trefn gwyno wedi'i datblygu a'i chyfathrebu i staff.
Llofnodwyd	<i>J Smith</i>		<i>J Smith</i>	
Swydd	Prif Weithredwr		Prif Weithredwr	
Dyddiad	30/04/2018		30/07/2018	



NCVO

Society Building

8 All Saints Street

London N1 9RL

020 7713 6161

ncvo@ncvo.org.uk

ncvo.org.uk

Registered charity number 225922